Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Ymateb i adroddiad thematig Estyn o Gyrfaoedd: Gweithredu'r fframwaith gyrfaoedd a'r byd gwaith mewn ysgolion uwchradd

ISBN digidol 978 1 78859 303 8
© Hawlfraint y Goron Medi 2017
WG27868

**Teitl yr adroddiad:**

Gyrfaoedd: Gweithredu'r fframwaith gyrfaoedd a'r byd gwaith mewn ysgolion uwchradd

**Manylion yr adroddiad**

Roedd yr adroddiad yn ymateb uniongyrchol i gais am gyngor gan Lywodraeth Cymru yn llythyr cylch gwaith blynyddol y Gweinidog at Estyn ar gyfer 2016-2017. Mae'r adroddiad yn archwilio graddau ac effeithiolrwydd y ffordd y mae ysgolion uwchradd yn cyflwyno'r fframwaith statudol Gyrfaoedd a'r Byd Gwaith (GBG). Mae'n ystyried y graddau y mae darpariaeth ac arweinyddiaeth ysgolion uwchradd yn y maes hwn wedi newid ers adroddiad blaenorol Estyn ar GBG, sef *Penderfyniadau Gwybodus*, ym mis Hydref 2012. Mae'r adroddiad yn defnyddio tystiolaeth o 156 o arolygiadau ysgolion uwchradd ers Hydref 2012 ac o arolwg o 35 ysgol uwchradd.

**Crynodeb o'r prif ganfyddiadau**

Mae bron pob ysgol yn darparu ystod o wybodaeth ddefnyddiol i ddisgyblion ym Mlwyddyn 9 i'w helpu i wneud eu dewisiadau pwnc yng nghyfnod allweddol 4. Defnyddiant ystod o strategaethau i gynorthwyo disgyblion a'u rhieni i wneud penderfyniadau, gan gynnwys darparu cyngor gan gynghorwyr gyrfaoedd mewn nosweithiau agored. Fodd bynnag, nid yw mwyafrif yr ysgolion wedi ymateb yn effeithiol i ostyngiadau yn y cymorth a gynigir gan Gyrfa Cymru. O ganlyniad, ychydig o ysgolion yn unig sy'n sicrhau bod pob un o ddisgyblion cyfnod allweddol 4 yn cael cyfweliad i drafod eu dewisiadau gyrfa. Tra bo'r rhan fwyaf o ysgolion yn darparu ystod o wybodaeth gyffredinol am ddewisiadau ôl-16 i ddisgyblion, yn gyffredinol, mae ysgolion 11-18 yn rhoi gormod o bwyslais ar hyrwyddo eu chweched dosbarth eu hunain yn hytrach nag archwilio ystod y dewisiadau eraill sydd ar gael i ddisgyblion ar draws ystod y darparwyr yn llawn. Nid yw lleiafrif o ysgolion yn defnyddio gwybodaeth nac adnoddau digon cyfoes i arwain penderfyniadau disgyblion.

Mae dulliau ar gyfer cyflwyno GBG yn parhau i amrywio'n fawr ar draws ysgolion ac mae faint o amser gwersi y mae ysgolion yn ei neilltuo i GBG yn parhau i amrywio'n fawr. Nid yw lleiafrif o ysgolion yn neilltuo unrhyw amser i GBG ac mewn lleiafrif o ysgolion, ni ddarperir hyfforddiant nac adnoddau cyfoes i staff ymgymryd â'r rôl hon.

Mae lleiafrif o ysgolion o'r farn fod eu darpariaeth GBG yn llai effeithiol nag ydoedd bum mlynedd yn ôl. Mae'r ysgolion hyn yn credu bod gostyngiadau yn y cymorth sydd ar gael gan Gyrfa Cymru, wedi'i gyfuno â gofynion cynyddol cwricwlwm cyfnod allweddol 4, wedi golygu na allant gyflwyno GBG mor effeithiol ag yr oeddent yn y gorffennol.

Mae cyfran y disgyblion sy'n cymryd rhan mewn lleoliadau profiad gwaith yng nghyfnod allweddol 4 neu yn y chweched dosbarth wedi dirywio'n sylweddol dros y pum mlynedd ddiwethaf. Yn y rhan fwyaf o achosion, mae ysgolion yn teimlo na allant fodloni'r gofynion iechyd a diogelwch ar gyfer gallu cynnal rhaglen profiad gwaith gan nad yw Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn

ofynnol i Gyrfa Cymru gynnal cronfa ddata profiad gwaith genedlaethol ar ran ysgolion mwyach. Mae bron pob ysgol sydd wedi lleihau darpariaeth profiad gwaith yn teimlo bod hyn wedi cael effaith negyddol ar gynnydd disgyblion ac ar eu dealltwriaeth o'u dewisiadau gyrfa. Mae ychydig iawn o ysgolion wedi buddsoddi'n sylweddol mewn cynnal yr agwedd hon ar eu darpariaeth ac yn rheoli'r gofynion iechyd a diogelwch eu hunain.

**Argymhelliad 1**

*Dylai ysgolion* sicrhau bod pob un o'r disgyblion yn cael trafodaethau rheolaidd am eu cynnydd, eu dyheadau a'u llwybrau dysgu posibl, yn enwedig ym Mlwyddyn 9 a Blwyddyn 11.

**Ymateb Llywodraeth Cymru:**

Mae'r argymhelliad hwn ar gyfer ysgolion ac rydym yn cytuno'n fras â'r cynnwys.

Bydd swyddogion Llywodraeth Cymru'n trafod gyda'r cydlynwyr 14-19 rhanbarthol ac yn gofyn iddynt annog ysgolion i ddefnyddio'r adnoddau a'r gwasanaethau newydd sy'n cael eu cyflwyno gan Gyrfa Cymru yn unol â gweledigaeth 'Newid Bywydau'.

**Argymhelliad 2**

*Dylai ysgolion* roi gwybodaeth gywir a chyfoes i ddisgyblion am ystod lawn y cyfleoedd chweched dosbarth, addysg bellach a phrentisiaeth sy'n agored iddynt.

**Ymateb Llywodraeth Cymru:**

Mae'r argymhelliad hwn ar gyfer ysgolion ac rydym yn cytuno'n fras â'r cynnwys.

Mae'r mwyafrif helaeth o ysgolion a darparwyr addysg bellach yn cydnabod manteision y prosbectws ardal gyffredin lleol (PAC) ac yn cyhoeddi ac yn diweddaru eu cynnig cwricwlwm ôl-16 yn flynyddol yn y PAC sy'n cael ei gynnal ar wefan Gyrfa Cymru (gyrfacymru.com). Ysgrifennodd Llywodraeth Cymru at ysgolion a darparwyr AB ym mis Medi yn gofyn am eu cefnogaeth barhaus wrth gyflwyno'r PAC a sicrhau ei fod yn gwireddu ei botensial i ddarparu gwybodaeth gyfoes ar opsiynau ôl-16.

O ran yr argymhelliad hwn, rydym yn nodi rôl hollbwysig Gyrfa Cymru wrth ddarparu gwybodaeth, cyngor ac arweiniad annibynnol ar yrfaoedd a diduedd i bobl ifanc. Yn ystod y flwyddyn i ddod, mae Gyrfa Cymru wedi cael y dasg o edrych ar opsiynau i integreiddio'r PAC o fewn y model darganfod gyrfa ehangach a arweinir yn ddigidol fel y cynigir yn y weledigaeth 'Newid Bywydau'. Yr uchelgais yw darparu llwybr effeithiol i bobl ifanc gael gafael ar wybodaeth ar yr opsiynau a'r llwybrau dysgu sydd ar gael iddynt wrth iddynt wynebu eu dewisiadau dysgu ôl-16.

**Argymhelliad 3**

*Dylai ysgolion* arfarnu eu darpariaeth GBG i sicrhau ei bod:

a. yn cael ei chyflwyno gan staff wedi’u hyfforddi’n dda, a bod y ddarpariaeth yn cynnwys adnoddau cyfoes
b. yn darparu profiadau perthnasol sy’n canolbwyntio ar waith ar gyfer disgyblion
c. yn defnyddio gwybodaeth yn well i fonitro ac olrhain tueddiadau yng nghyflawniad a dilyniant disgyblion er mwyn cynllunio gwelliannau yn y ddarpariaeth
d. yn cael ei hintegreiddio mewn prosesau hunanarfarnu, cynllunio gwelliant ac atebolrwydd ysgol gyfan.

**Ymateb Llywodraeth Cymru:**

Mae’r argymhelliad hwn ar gyfer ysgolion ac rydym yn cytuno’n fras â’r cynnwys. Bydd Llywodraeth Cymru’n cyfathrebu ag ysgolion trwy Dysg am yr angen i werthuso darpariaeth Gyrfaoedd a’r Byd Gwaith.

**Argymhelliad 4**

*Dylai ysgolion* gynnwys llywodraethwyr yn fwy mewn goruchwylio GBG yn strategol.

**Ymateb Llywodraeth Cymru:**

Mae'r argymhelliad hwn ar gyfer ysgolion ac rydym yn cytuno'n fras â'r cynnwys.

Cyhoeddwyd *Gyrfaoedd a’r byd gwaith: swyddogaethau a chyfrifoldebau* yn 2012 i roi mwy o eglurder ar swyddogaethau darparwyr dysgu a'r holl sefydliadau amrywiol sy'n ymwneud â chyflwyno gyrfaoedd a byd gwaith, gan gynnwys cyrff llywodraethu a phwyllgorau rheoli. Mae wedi'i fwriadu’n arbennig ar gyfer y rhai sy'n gyfrifol am sicrhau bod eu dysgwyr yn cael yr hyn y mae ganddynt hawl i’w gael o ran Gyrfaoedd a’r byd gwaith a'r rhai sy'n ymwneud â’r broses ar lefel strategol, cynllunio a chyflwyno.

Mae’r arweiniad yn cynnwys rhestrau gwirio ar gyfer cyrff llywodraethu, uwch arweinwyr a chydlynwyr Gyrfaoedd a’r byd gwaith. Bydd swyddogion Llywodraeth Cymru yn hysbysu Llywodraethwyr Cymru ac yn cynnwys eitem newyddion yng nghylchlythyr Dysg i sicrhau bod y ddogfen ganllawiau hon, ynghyd â’r fframwaith, yn cael eu defnyddio i gynorthwyo ysgolion i gynllunio eu darpariaeth Gyrfaoedd a’r byd gwaith.

**Argymhelliad 5**

*Dylai awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol* helpu ysgolion i ddatblygu eu defnydd o wybodaeth i arfarnu effeithiolrwydd eu darpariaeth GBG.

**Ymateb Llywodraeth Cymru:**

Mae'r argymhelliad hwn ar gyfer ysgolion ac rydym yn cytuno'n fras â'r cynnwys. Bydd Llywodraeth Cymru'n ysgrifennu at y consortia Rhanbarthol ac Awdurdodau Lleol i dynnu sylw at yr argymhelliad hwn.

**Argymhelliad 6**

*Dylai Llywodraeth Cymru* hyrwyddo partneriaethau cryfach rhwng ysgolion, darparwyr, cyflogwyr a phobl eraill i wella'r ffordd y caiff cyngor ac arweiniad diduedd eu cyflwyno.

**Ymateb Llywodraeth Cymru:**

Rydym yn derbyn yr argymhelliad hwn.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cytuno ar set ddiwygiedig o flaenoriaethau ar gyfer Gyrfa Cymru yn unol â gweledigaeth 'Newid Bywydau' a fydd yn arwain at wasanaethau newydd a gwell i gefnogi datblygiad partneriaethau cryfach rhwng ysgolion a chyflogwyr. Mae ymgysylltu â chyflogwyr yn hanfodol er mwyn sicrhau:

- Bod gan ddysgwyr fynediad i brofiadau cyflogwyr sy'n eu helpu i gynllunio eu taith yrfaol, gan helpu i sicrhau eu bod yn barod i chwarae eu rhan yn llawn yn eu bywyd a'u gwaith;
- Bod timau gyrfaoedd yn wybodus iawn am dueddiadau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol yn y farchnad lafur;
- Bod cyflogwyr yn darparu cyfleoedd i helpu dyheadau disgyblion o ran eu nodau gyrfaol yn y dyfodol.

Mae Gyrfa Cymru yn bwrw ymlaen i gyflwyno gweledigaeth 'Newid Bywydau', gan ail-flaenoriaethu ac ail-ffocysu adnoddau. Gan ddechrau'r mis Medi hwn, bydd pwyslais llawer cryfach ar gefnogaeth i bobl ifanc mewn ysgolion, yn uniongyrchol, trwy feithrin gallu gyda phartneriaid, a thrwy adnoddau newydd i helpu athrawon i wneud cysylltiadau rhwng cyflwyno'r cwricwlwm a byd gwaith. Eleni, mae gan Gyrfa Cymru darged o ymgysylltu â 10,000 o gyflogwyr ar eu cronfa ddata Cyfnewidfa Busnes Addysg newydd fel bod ysgolion a phobl ifanc yn gallu gweld y cyfleoedd sydd ar gael iddynt gan gyflogwyr lleol ac y gall gweithgareddau a rhyngweithio rhwng ysgolion a chyflogwyr gael eu hwyluso a'u rheoli'n well. Mae'r gwasanaeth newydd hwn yn cael ei gyflwyno'n gyntaf ym Mlaenau'r Cymoedd gydag adroddiadau am gynnydd i'w cyflwyno i Dasglu'r Cymoedd.

| |
|---|
| Bydd y Gyfnewidfa Busnes Addysg yn seiliedig ar 'set ddata' gynhwysfawr sy'n cynnwys manylion yn ymwneud â pharodrwydd a gallu cyflogwyr i gefnogi'r cwricwlwm gyda gweithgareddau gan gynnwys:<br><br>• Ymweliadau â diwydiant sy'n canolbwyntio ar y cwricwlwm;<br><br>• Efelychiadau gwaith neu fusnes sy'n cynnwys gweithdai gyda chyflogwyr naill ai mewn gwirionedd neu ar-lein;<br><br>• Cyfranogiad cymunedol sy'n gysylltiedig â gwaith drwy wirfoddoli. (Mae angen 30 awr ar gyfer craidd CBC);<br><br>• Diwrnodau diwydiant / ffeiriau gyrfaoedd gyda gwahanol opsiynau gyrfa neu yrfaoedd yn cael eu targedu;<br><br>• Lleoliadau gwaith estynedig ar gyfer dysgwyr dynodedig.<br><br>Mae'r dull newydd hwn yn adlewyrchu polisi Llywodraeth Cymru i hwyluso rhyngweithio gwell gyda chyflogwyr y tu hwnt i'r bloc traddodiadol o 5/10 diwrnod o brofiad gwaith. Ystyriwyd adborth gan gyflogwyr ledled Cymru wrth gynllunio'r gwasanaeth.<br><br>Mae Llywodraeth Cymru'n cydnabod y gall ymgysylltu effeithiol gan gyflogwyr gydag ysgolion helpu pobl ifanc i gynllunio eu taith yrfaol, cysylltu eu profiad ystafell ddosbarth â'u syniadau a'u dewisiadau gyrfa yn y dyfodol a'u helpu i baratoi ar gyfer y dyfodol a chwarae eu rhan yn llawn yn eu bywyd a'u gwaith.<br><br>Mae Llywodraeth Cymru'n darparu £400,000 ychwanegol i Gyrfa Cymru yn 2017-18 i gryfhau cysylltiadau rhwng cyflogwyr ac ysgolion; ac mae hefyd wedi ariannu prosiect Dosbarth Busnes Cymru a gyflwynir mewn partneriaeth rhwng Gyrfa Cymru a Busnes yn y Gymuned (BITC). Mae Dosbarth Busnes wedi sefydlu mwy na 80 o bartneriaethau busnes-ysgol ledled Cymru. Mae'r model wedi'i seilio ar baru ysgolion a chyflogwyr yn y lle cyntaf; gyda gweithgaredd y cytunir arno gan yr ysgol a busnes. Bwriedir i'r partneriaethau fod yn rhai tymor hirach ac maent yn enghraifft glir o sut mae cysylltiadau cryf rhwng busnes ac addysg yn cael eu meithrin yng Nghymru. |
| **Argymhelliad 7**<br><br>*Dylai Llywodraeth Cymru a*dolygu'r fframwaith GBG a diweddaru arweiniad yng ngoleuni egwyddorion diwygio'r cwricwlwm a nodwyd yn Dyfodol Llwyddiannus.<br><br>**Ymateb Llywodraeth Cymru:**<br><br>Rydym yn derbyn yr argymhelliad hwn.<br><br>Mae *Dyfodol Llwyddiannus*, adolygiad annibynnol yr Athro Graham Donaldson o drefniadau cwricwlwm ac asesu yng Nghymru, yn cynnig gweledigaeth o'r hyn y dylem ei weld pan fo pobl ifanc lwyddiannus yn gadael addysg statudol. Mae Llywodraeth Cymru'n bwrw ymlaen ag argymhellion |

*Dyfodol Llwyddiannus*, gyda chwricwlwm newydd yn cael ei ddatblygu gan athrawon ac ymarferwyr trwy rwydwaith o Ysgolion Arloesi, gyda chefnogaeth rhanddeiliaid fel rhan o bartneriaeth Cymru gyfan.

Bydd gan y cwricwlwm newydd fwy o bwyslais ar baratoi pobl ifanc ar gyfer bywyd a bydd 4 diben wrth wraidd y cwricwlwm hwn. Un o'r rhain yw y dylai plant a phobl ifanc ddatblygu fel 'cyfranwyr mentrus, creadigol, sy'n barod i chware eu rhan yn llawn yn eu bywyd a'u gwaith'.

Bydd Llywodraeth Cymru'n disgwyl i Gyrfa Cymru nodi pa rôl y bydd yn ei chwarae wrth gynorthwyo ysgolion i integreiddio addysg gyrfaoedd, gweithgareddau cysylltiedig â gwaith a menter, yn unol â'r uchelgeisiau sydd yn *Dyfodol Llwyddiannus*.

**Manylion cyhoeddi**

Cyhoeddwyd yr adroddiad ar 12 Medi 2017 a gellir ei weld ar wefan Estyn: www.estyn.llyw.cymru/adroddiadau-thematig